Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cefn Coch
# Penrhyndeudraeth
# Gwynedd
# LL48 6AE

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Gymraeg i Saesneg)**



**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Cefn Coch ym mhentref Penrhyndeudraeth, Gwynedd yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Ar hyn o bryd, mae'n addysgu 183 o ddisgyblion sy'n cynnwys 23 disgybl rhan-amser oed meithrin.

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Ardudwy yn Harlech ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Daw 79% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae 2% o gefndir ethnig ac mae'r canran hyn ychydig yn is na chanran yr awdurdod lleol.

Mae 12% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae hyn yn is na'r canran sirol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn datgan nad yw'r ardal lle y'i lleolir yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae 30% o'r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion addysg ychwanegol, canran sydd wedi cynyddu'n ddiweddar ac yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol (21.2%). Pum disgybl sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae newid wedi bod yn staff rheoli'r ysgol ers yr arolygiad diwethaf gyda phennaeth wedi bod yn ei swydd am ddeunaw mis a dirprwy i ffwrdd ar secondiad am gyfnod o 36 mis.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl yn 2011-2012 ar gyfer Ysgol Cefn Coch yw £3,039. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £7,732 a'r isafswm yw £2,745. Mae Ysgol Cefn Coch yn 81 allan o'r 102 ysgolion cynradd ym yng Ngwynedd yn nhermau cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd mae:

- safon y gwaith a welwyd yn llyfrau'r disgyblion ac yn y gwersi yn uwch na'r hyn y mae'r data yn unig yn ei ddangos;
- medrau meddwl y disgyblion wedi datblygu'n dda;
- perfformiad disgyblion 7 oed yr ysgol yn dangos cynnydd da o 83% yn 2008 i 93% yn 2011;
- canlyniadau disgyblion 7 oed yn dangos eu bod yn perfformio gyda'r gorau ymhlith y teulu o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd;
- canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad yn 7 oed wedi cynyddu yn gyson ers 2008, ac mae'r ysgol yn perfformio yn uwch na'r disgwyl o ystyried lefel her yr ysgol;
- disgyblion 11 oed yn perfformio'n well na'r teulu yn gyson tros y pedair blynedd ddiwethaf o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd; a bod
- perfformiad y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn well na'r disgwyl o ystyried eu perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ac yn dangos cynnydd da yn eu dysgu tra yn yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn ddigonol:

Er bod:

- y pennaeth newydd wedi ffocysu'n llwyddiannus ar les disgyblion a llwyddo i greu cymuned glos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel a hapus;
- hyn wedi sicrhau ymddygiad da ar draws yr ysgol, codi hunan-barch y disgyblion a sicrhau lefelau presenoldeb uchel; a bod
- yr ysgol wedi ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol yn dda.

Nid yw:

- yr holl brosesau a luniwyd gan y pennaeth wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar bob agwedd o fywyd yr ysgol eto;
- yr adroddiad hunanarfarnu yn ddigon treiddgar a dadansoddol;
- y rheolwyr wedi sicrhau bod y polisi a gweithdrefnau diogelu plant yn cydymffurfio â'r gofynion statudol;
- rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yr ysgol wedi datblygu'n llawn; ac
- nid oes cynnydd digonol mewn tri o'r prif faterion a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

Er mwyn gwella dylai'r ysgol:

A1 barhau i godi safonau diwedd cyfnod allweddol 2 mewn ysgrifennu a lleihau'r gagendor rhwng bechgyn a merched;

A2 sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyrraedd y lefelau uwch;

A3 sicrhau bod hunanarfarnu'r ysgol yn gywir ac yn llawer mwy arfarnol a bod y cynllun datblygu ysgol yn ddogfen fwy hylaw;

A4 datblygu rôl monitro'r cydlynwyr pynciol ymhellach;

A5 cryfhau rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol;

A6 sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefnau diogelu priodol; a

A7 sicrhau bod y corff llywodraethol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 1, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â disgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd) yn dangos cynnydd da o 83% yn 2008 i 93% yn 2011. Yng nghyfnod allweddol 2, mae wedi gostwng ychydig tros yr un cyfnod. Er hyn, mae perfformiad y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn well na'r disgwyl o ystyried eu perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1. Mae hyn yn awgrymu cynnydd da yn eu dysgu yn ystod cyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn canolbwyntio'n dda ac yn galw i gof eu dysgu blaenorol. Defnyddiant eu medrau'n effeithiol i gaffael gwybodaeth newydd. Maent yn cydweithio'n dda ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a gyflwynwyd iddynt. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithol. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n effeithiol mewn parau i ddatrys problemau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd. Gall y rhan fwyaf drafod yn hyderus gan ddefnyddio geirfa eang. Mae bron pob disgybl yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Gymraeg yn dda gydag enghreifftiau o waith ymestynnol da ym mlwyddyn 2.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn siarad yn hyderus iawn mewn iaith naturiol raenus mewn trafodaethau dosbarth a chydag ymwelwyr.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn medru darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant da yn y ddwy iaith. Darllenant ystod o ddeunyddiau ar gyfer cywain gwybodaeth yn effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwyaf abl bob amser yn cyflawni cystal ag y dylent. Mae medrau Saesneg llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol dau yn dda ond nid yw safonau ysgrifennu cyn gryfed â llafar a darllen.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad yn 7 oed yn wedi cynyddu yn gyson ers 2008, ac mae'r ysgol yn perfformio yn uwch na'r disgwyl o ystyried lefel her yr ysgol. Mae perfformiad disgyblion 11 oed yn agos i'r hyn sy'n ddisgwyliedig ond nid yw'n dangos yr un cynnydd.

Perfformiodd y bechgyn 7 ac 11 oed ychydig yn well na'r merched o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd. Ond tros gyfnod o bedair blynedd mae'r merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn am lawer o'r amser. O gymharu â lefel her yr ysgol mae'r ysgol yn perfformio yn is na'r disgwyliadau o ran cyrraedd lefel 3 yn 7 oed ym mhob pwnc, a lefel 5 yn 11 oed ym mhob pwnc ond y Gymraeg yn 2011.

Am lawer o'r pedair blynedd diwethaf, bu cyflawniad disgyblion 7 oed sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn uwch na'r rhai nad ydynt. Yng nghyfnod allweddol 2, tros bedair blynedd nid oes patrwm amlwg.

**Lles: Da**

Mae safonau lles y disgyblion yn dda ac mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd a budd bwyta'n iach. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'r corff yn iach.

Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn gwrtais, yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agwedd cadarnhaol a brwdfrydig tuag at eu dysgu. Maent yn gweithio'n annibynnol ac yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion. Un o gryfderau'r ysgol yw'r parch mae disgyblion yn ei ddangos i'w gilydd ac i oedolion. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Nid yw'r ysgol wedi cael achos i eithrio disgybl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae presenoldeb yr ysgol yn dda. Mae'r canran presenoldeb wedi bod yn y 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb yn bwrpasol trwy'r cyngor ysgol a'r cyngor eco ac maent yn gweithredu'n effeithiol. Maent yn cyfrannu at benderfyniadau i godi arian, er enghraifft wrth ddewis brynu meinciau ar gyfer y buarth. Drwy'r cynghorau, yr holiaduron disgyblion a thrafodaethau dosbarth, mae llais y disgybl yn cael lle amlwg yng ngweithdrefnau'r ysgol.

Mae profiadau'r disgyblion yn cael eu cyfoethogi yn dda trwy amrywiol weithgareddau yn y gymuned a thu hwnt.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn cydweithio i gynllunio ystod o brofiadau dysgu diddorol ar gyfer datblygu medrau'r holl ddisgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn rhan o'r cynllunio gan arwain at addysgu themâu sy'n apelio at yr holl ddisgyblion. Trefnir ystod o brofiadau ac ymweliadau eang sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r athrawon yn targedu grwpiau o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn llwyddiannus ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau a chymhelliad. Darperir tasgau ymestynnol ar gyfer y disgyblion ond nid yw'r rhain eto wedi codi deilliannau o ran cyrraedd y lefelau uwch mewn cymhariaeth â'u safle o fewn y teulu. Caiff disgyblion gyfleoedd amrywiol ac effeithiol i ddatblygu eu gallu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn dda. Rhoddir lle blaenllaw i ddiwylliant lleol ac i'r Cwricwlwm Cymreig yng nghynlluniau'r ysgol. Mae hyn yn effeithio'n bositif ar ethos yr ysgol ac yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’r angen i ofalu am yr amgylchedd ac mae’r agwedd hon yn datblygu'n briodol drwy'r ysgol. Mae'r pwyllgor eco'n annog y disgyblion i weithredu mewn modd cynaliadwy ac mae’r gwaith hwn wedi ei gydnabod wrth i’r ysgol dderbyn y Wobr Aur dan gynllun Ysgol Werdd Gwynedd a Môn.

**Addysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae’r addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o arddulliau addysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi i gyflawni yn unol â’u gallu. Yn y gwersi lle mae'r addysgu’n dda, mae tasgau diddorol a chwestiynu treiddgar yn herio'r disgyblion, mae cyflymder pwrpasol ac anogaeth briodol at ddysgu'n annibynnol. Yn yr ychydig iawn o wersi llai llwyddiannus a arsylwyd, ni rannwyd yr amcanion dysgu'n ddigon clir gyda'r disgyblion gan gyfyngu ar eu dealltwriaeth o sut a beth oedd angen iddynt gyflawni.

Mae perthynas waith lwyddianus iawn yn bodoli rhwng yr oedolion a’r disgyblion ac mae hyn yn meithrin dysgu effeithiol. Cyfranna’r cymorthyddion dosbarth yn hynod effeithiol ac mae disgyblion yn elwa o’r gefnogaeth hon ar draws yr ysgol. Mae rheolaeth dosbarth yn gyson effeithiol ac mae elfen uchel o barch rhwng yr oedolion a'r disgyblion. Mae pob un aelod o staff yn fodelau iaith da i'r disgyblion.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu’n dda trwy'r ysgol. Serch hynny nid yw sylwadau ysgrifenedig athrawon ar waith disgyblion bob amser o ansawdd digon da i alluogi'r disgyblion i wella eu gwaith.

Caiff rhieni wybodaeth am gynnydd a datblygiad eu plentyn yn rheolaidd ond nid yw'r adroddiadau i rieni'n nodi'r camau ar gyfer datblygiad pellach yn ddigon cyson.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae profiadau’r dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. Yn ogystal, cyfranna’r gwasanaethau yn dda at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau trwyadl ar gyfer adnabod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac maent yn cael eu hadnabod yn gynnar. Mae hyn yn galluogi’r ysgol i drefnu darpariaeth bwrpasol ac effeithiol ar gyfer y disgyblion. Mae’r cynlluniau addysg unigol yn briodol ac yn cael eu hadolygu’n rheolaidd gyda'r rhieni a'r disgyblion. Cydlynir y cymorth yn effeithiol iawn ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol arbenigol.

Nid oes gan y darparwr bolisi priodol ar gyfer diogelu. Nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer delio â materion diogelu wedi cael eu datblygu'n llawn.

Tynnwyd sylw cadeirydd y corff llywodraethol a'r pennaeth at y ffaith nad yw trefniadau ar gyfer materion sy'n delio ag Iechyd a Diogelwch ar safle'r ysgol wedi eu datblygu'n llawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cartrefol a chyfeillgar iawn sy'n creu cymuned hollol gynhwysol. Caiff pob plentyn mynediad cyfartal i bob agwedd o waith yr ysgol. Hyrwyddir cydraddoldeb a pharch tuag at amrywiaeth yn effeithiol trwy raglenni addysg bersonol a chymdeithasol a lles.

Mae strategaethau da a chyson yn bodoli er mwyn sicrhau ymddygiad da.

Mae'r ystafelloedd dysgu yn darparu amgylchedd addas ar gyfer dysgu. Ceir arddangosfeydd symbylus ar draws yr ysgol gydag amrywiaeth o adnoddau addas sydd o ansawdd da i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r adeilad a'r tir oddi amgylch yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth wedi creu awyrgylch hapus lle mae cyfraniad a photensial pob disgybl yn cael ei werthfawrogi. Mae llwyddo i greu perthynas lle mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus i drafod gyda oedolion yn gryfder o fewn yr ysgol. Mae'r ethos cadarnhaol hwn wedi sicrhau ymddygiad da ar draws yr ysgol, codi hunan barch y disgyblion a sicrhau lefelau presenoldeb uchel.

Nid yw cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli wedi eu nodi yn y swydd ddisgrifiadau.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac wedi sefydlu nifer o is-bwyllgorau i reoli'r ysgol yn well. Derbyniant adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ac maent yn ymwybodol o rai o'r meysydd sydd angen eu datblygu yng nghwricwlwm yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu â lefel her yr ysgol o fewn y teulu wedi datblygu'n ddigonol ac o'r herwydd, nid ydynt yn medru dwyn yr ysgol i gyfri am y safonau ac i herio fel cyfeillion beirniadol. Mae rhai aelodau yn ymweld â'r ysgol ond nid eto i edrych ar bynciau penodol a chydweithio gyda'r cydlynwyr pwnc. Nid ydynt wedi sicrhau bod polisi a gweithdrefnau diogelu plant yn eu lle na sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n llwyddiannus ac mae'r fframwaith medrau yn sail i gynllunio effeithiol yn y dosbarthiadau. Mae'r ysgol yn rhan o gymuned broffesiynol gydag ysgolion y teulu i ddatblygu safonau llythrennedd ac mae hyn wedi effaith gadarnhaol ar safonau darllen. Caiff llais y disgybl le amlwg yn yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae trefn newydd hunanarfarnu tros dair blynedd wedi ei chyflwyno i'r corff llywodraethol yn ddiweddar, ond hyd yma, nid yw'r prosesau hyn wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae'r athrawon yn llunio adroddiadau mwy trylwyr yn awr ac mae'r

mwyafrif yn adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw data diwedd cyfnod allweddol yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r adroddiadau, nac archwiliad o lyfrau disgyblion er mwyn cael darlun clir o safonau.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddisgrifiadol yn hytrach nac yn arfarniad dadansoddol. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad data digon trylwyr ac o ganlyniad nid yw'n nodi yn ddigonol yr adrannau sydd angen eu datblygu. Yn fwy pwysig, nid yw sail y barnau a roir yn ddigon cadarn a chywir, er enghraifft, nodwyd bod y trefniadau diogelu yn dda er bod diffygion pwysig yn y maes hwn.

Mae peth cysylltiad rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol a dderbyniwyd. Mae'n nodi'r camau i'w cymryd, meini prawf llwyddiant, amserlen o fewn y flwyddyn academaidd, cyfrifoldebau, deilliannau, costau a sut mae cynnydd yn cael ei fonitro. Nid yw cynnwys y cynllun hwn yn ddigon penodol nac yn cynnig yn ddigon cyson dargedau meintiol fydd yn hawdd eu mesur yn nhermau cynnydd mewn safonau. Mae hyn yn cyfyngu ar rôl y corff llywodraethol fel cyfeillion beirniadol a'u gallu i ddwyn yr ysgol i gyfri. Er bod adolygiad o'r cynllun blaenorol nid yw'r sylwadau hyn ychwaith yn ddigon arfarnol (o ran dangos cynnydd mesuradwy ac nid oes digon o fanylder yma ar gyfer y llywodraethwyr i fesur cynnydd).

Yn ychwanegol at y cynllun datblygu a dderbyniwyd mae cynllun gweithredu ar gyfer gwelliant yn yr ysgol sy'n ymateb i ddadansoddiad o ddata Ffynnon. Mae'r cynllun hwn yn targedu ac yn adnabod yn gywir yr elfennau sydd angen eu cryfhau o fewn yr ysgol ac yn cynnwys targedau meintiol. Serch hynny, nid oes atebolrwydd clir yn y cynllun hwn ac nid yw'r gweithgareddau wedi eu costio.

Ni weithredwyd yn llawn ar dri allan o'r pedwar argymhelliad yn dilyn yr arolygiad blaenorol.

Mae'r ysgol yn rhan o gymuned proffesiynol gyda ysgolion y teulu i ddatblygu safonau llythrennedd ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen. Mae cyfleoedd da ar gyfer datblygu parhaus yr athrawon ynghlwm â blaenoriaethau'r ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau strategol da gydag ysgolion y 'teulu', Cynnal, a'r awdurdod lleol sydd yn cynnig cymorth a chynhaliaeth briodol. Cydweithir yn effeithiol gyda swyddogion yr adran gyllidol wrth drafod cyllideb a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion y dalgylch a'r ysgol uwchradd leol ac mae trefniadau trosglwyddo da yn bodoli o ran cyd-safoni a chymedroli gwaith.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r gymuned yn gryf iawn. Lleolir yr ysgol feithrin ar dir yr ysgol ac mae'r bartneriaeth hon yn un glos ac effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o adnoddau cymunedol ac yn cynnal cyngherddau yn y neuadd gymunedol. Mae'r ysgol yn derbyn rhoddion ariannol yn gyson gan gymdeithasau'r ardal i brynu adnoddau i gyfoethogi'r dysgu.

Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni gyda nifer ohonynt yn ymweld â'r ysgol i siarad am eu gwaith ac i rannu profiadau. Mae Cyfeillion yr ysgol yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu'n effeithiol iawn at waith yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol.

Mae'r defnydd a wneir o staff ategol yr ysgol yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles y disgyblion. Mae holl staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm, ac mae hyn yn gryfder. Defnyddir arbenigedd staff yn effeithiol er mwyn sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn dda mewn meysydd penodol.

Mae cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau cynllunio bwriadus. Mae trefniadau rheoli perfformiad yr athrawon yn briodol a darperir cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol yr holl staff yn unol â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n addas i hyrwyddo a chyfoethogi'r dysgu.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn briodol er mwyn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy'n ymateb i anghenion yr ysgol.

O ystyried deilliannau'r disgyblion a monitro gofalus o'r cyllid, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 1, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â disgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd) yn dangos cynnydd da o 83% yn 2008 i 93% yn 2011. Yng nghyfnod allweddol 2, mae wedi gostwng ychydig tros yr un cyfnod ond mae perfformiad y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn well na'r disgwyl o ystyried eu perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1. Mae hyn yn awgrymu cynnydd mewn dysgu yn arbennig o ystyried y nifer o ddisgyblion oedd ar y gofrestr anghenion arbennig.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad yn 7 oed yn wedi cynyddu yn gyson ers 2008 ac mae'r ysgol yn perfformio yn uwch na'r disgwyl o ystyried lefel her yr ysgol. Mae perfformiad disgyblion 11 oed yn agos i'r hyn sy'n ddisgwyliedig ond nid yw yn dangos yr un cynnydd.

Mae canlyniadau disgyblion 7 oed yn 2011 yn dangos bod yr ysgol yn perfformio gyda'r gorau ymhlith y teulu o ran y dangosydd pynciau craidd. Mae cymariaethau dros gyfnod o bedair blynedd yn dangos bod disgyblion 7 oed yn perfformio'n gyson well na'r teulu ym mhob pwnc. Mae data diwedd cyfnod allweddol 2 yn dangos bod y disgyblion 11 oed yn perfformio yn uwch na'r teulu o ran y dangosydd pynciau craidd yn gyson ond mae ei safle o fewn y teulu yn 2011 ychydig yn is na'r disgwyl. Tros amser, mae safonau yng nghyfnod allweddol 1 yn seiliedig ar y teulu yn well na chyfnod allweddol 2. Mae hyn hefyd yn wir wrth meincnodi yn 2011 yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a thros gyfnod o bedair blynedd.

Wedi'i meincnodi yn 2011 yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 1 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol yn chwarter uchaf o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd. Mae cynnydd mewn perfformiad ym mhob pwnc ers 2008. Yn 2011, nid oedd canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 gystal â'r dangosydd pynciau craidd yn y trydydd chwarter. Serch hynny tros gyfnod o bedair blynedd nid oes patrwm clir gan iddo fod yn y ddau chwarter uchaf am hanner y cyfnod ac yn y trydydd chwarter am y gweddill.

Mewn cymhariaeth â chyfartaledd ysgolion Cymru yn 2011 mae'r disgyblion 7 oed yn perfformio'n uwch ym mhob pwnc. Maent wedi perfformio yn uwch na Chymru o ran cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn gyson tros bedair blynedd. Nid yw perfformiad disgyblion 11 oed gystal yn 2011. Serch hynny mae'r dangosydd pynciau craidd yn uwch na Chymru tros y pedair blynedd ond mae'r gagendor rhyngddynt erbyn hyn yn llai.

Yn 2011 roedd cyflawniad disgyblion 7 oed sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn uwch na'r rhai nad ydynt . Mae hyn yn wir am lawer o'r pedair blynedd diwethaf yng nghyfnod allweddol 1. Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 roedd cyflawniad disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn is na'r rhai nad ydynt. Ond tros bedair blynedd nid oes patrwm amlwg.

Yn groes i duedd y teulu yn 2011 perfformiodd y bechgyn 7 oed ychydig yn well na'r merched o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd. Ond tros gyfnod o bedair blynedd mae'r merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn am lawer o'r amser. Yn 2011 perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched o ran cyrraedd y lefelau uwch ym mhob pwnc. Tros amser mae'r merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn yn y Gymraeg ond roedd y bechgyn yn well yn y pynciau eraill.

Yn unol â thuedd y teulu yn 2011 perfformiodd y bechgyn 11 oed yn well na'r merched o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd. Ond tros gyfnod o bedair blynedd mae'r merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn am lawer o'r amser. Yn 2011 perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched o ran cyrraedd y lefelau uwch ym mhob pwnc. Tros amser mae'r merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn yn y Gymraeg a Saesneg ond nid oes patrwm yn y pynciau eraill.

Yn 2011 roedd y canran gyrhaeddodd y lefelau uwch ar ddiwedd ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn y Gymraeg yn uwch na'r teulu ac mae wedi bod yn gyson uwch am y pedair blynedd diwethaf. Serch hynny mae'r canran sy'n cyrraedd y lefelau uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn 2011 yn is na'r teulu ac mae wedi bod yn is am y rhan fwyaf o'r cyfnod.

Roedd y canran gyrhaeddodd y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn y Gymraeg yn uwch na'r teulu ac mae wedi bod yn gyson uwch am y pedair blynedd diwethaf. Mae'r canran gyrhaeddodd lefel 5 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2011 yn is na'r teulu. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd mewn Saesneg a mathemateg ond mae gwyddoniaeth wedi bod yn is am lawer o'r amser.

Yn 2011 mae'r ysgol wedi yn perfformio yn well na'r teulu yn y tair agwedd o lythrennedd yng nghyfnod allweddol 1 o ran cyrraedd y lefel disgwyliedig, gan berfformio'n uwch na'r disgwyl o ystyried lefel her yr ysgol. Tros bedair blynedd mae'r ysgol yn uwch na'r teulu am lawer o'r amser o ran darllen ac ysgrifennu ac yn gyson uwch o ran llafar. Mae ysgrifennu yn is o ran cyrraedd lefel 3 na llafar a darllen. Mae data cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn dangos bod yr ysgol yn perfformio yn well na'r teulu a Chymru o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ym mhob agwedd o lythrennedd Cymraeg. Serch hynny mae'r perfformiad yn is na'r disgwyl o ran ysgrifennu o ystyried lefel her yr ysgol. Mae'r canran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y medrau iaith yn dangos gostyngiad yn y ddwy flynedd diwethaf, yn fwyaf arbennig mewn ysgrifennu.

Perfformiodd yr ysgol yn is na'r teulu yn y tair agwedd o lythrennedd Saesneg yn 2011 ond nid oes patrwm clir tros bedair blynedd.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Derbyniwyd 29 o ymatebion cadarnhaol iawn i’r holiaduron gan rieni:**

Mae pob un yn cytuno neu’n cytuno’n gryf:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac maent yn fodlon â’r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plant yn hoffi’r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod yr addysgu’n dda;
- bod plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol; a
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;

Mae bron pob un yn nodi:

- bod y staff yn disgwyl i’r plant weithio’n galed ac i wneud eu gorau;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant;
- bod gwaith cartref sy’n cael ei roi yn adeiladu’n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- eu bod yn teimlo’n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i’r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- bod disgyblion yn cael cymorth i ymgartrefu’n dda;
- bod yr ysgol yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod yr ysgol yn helpu’r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- bod eu plant wedi eu paratoi’n dda ar gyfer symud ymlaen i’r ysgol nesaf.

Mae y rhan fwyaf yn nodi:

- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

**Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 96 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ac roeddynt yn unfrydol:

- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd; a
- bod yn gwybod beth i’w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae bron pob un yn dweud:

- eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni neu’n gofidio;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd a’u bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol; a
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae’r rhan fwyaf yn credu:

- nad yw plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae ychydig yn credu:

- nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda ac nad ydynt yn gallu gwneud eu gwaith.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Gwennol Elis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhys Glyn | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.